# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FEHEFIN 4ydd, 2024

## Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ) Cyng. Emyr Jones
Cyng. Sharon Thomas Cyng. Ceri Jones
Cyng. Maldwyn Lewis Cyng. Carol Davies

**Clerc** Rhian Jones

Croesawodd y Cadeirydd newydd – Y Cyng Sian Williams pawb i'w chyfarfod cyntaf.

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng. Teifi Evans, Cyng Mark Davies ynghyd a'r Cyng. Rob Jones

.

**2. Cyflwyniad Superfaast**

- Croesawyd Gavin o Openreach i'r cyfarfod i son am 'Superfast Fibre' ynghyd a Jonathan a Sandy Edwards o Rydlewis a ymunodd a ni ar ddechrau'r noson.

Mae Gavin yn gweithio i Openreach yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Cyflwynodd pwy yw Openreach a sut maent yn gobeithio cyflwyno 'full fibre' ledled Cymru - ac mae 25% o'r ardaloedd hyn yn rhai gwledig iawn. Byddai hyn yn sicrhau fod mwy yn gallu gweithio o adref. Nododd fod dros hanner o Geredigion eisioes yn 'full fibre', ac ond 16% o ardal Rhydlewis sydd yn ar hyn o bryd.

- Talebau Llywodraeth Prydain – gall pob cartref dderbyn taleb. Trwy dderbyn taleb rhaid i chi ymrwymo i brynu pecyn 'full fibre' am o leiaf 12 mis ( ond mae modd siopa o gwmpas a chael y pecyn wrth Openreach, Bt, Sky, Talk Talk ayyb).Ar gyfartaledd tua £30 y mis fydd y gost ar hyn o bryd. Mae ardal Rhydlewis yn fawr gyda cannoedd o gartrefi o fewn Rhydlewis, Plwmp, Penrhiwpal, Coedybryn, Brongest, Ffostrasol, Maesllyn, Croeslan a Bwlchygroes.
- Y gwelliant a welir o dderbyn y 'full fibre' yw newid o 16% i 90% sydd yn cynnyddu'r cyflymder yn fawr. Byddant yn dechrau gosod y fibre o fewn y mis a'r gobaith yw bydd pawb yn manteisio erbyn diwedd Mawrth 2025. Maent yn cyd-weithio gyda'r priffyrdd ac efallai bydd rhaid cau ambell fordd er mwyn gosod y gwifrau – ond maent fel cwmni yn barod i weithio dros nos er mwyn hwyluso'r broses i bawb. Maent yn gyfarwydd a gweithio mewn ardaloedd gwledig a heolydd bychain.
- Os am wybodaeth bellach mae modd cysylltu gyda Gavin drfos y ffon neu e-bost.
- Nodwyd y byddai ffonau analog yn gorffen yn y dyfodol agos ond byddant yn parhau i weithio trwy Di-wyfr. Os nad oes Di-wyfr gennych bydd modd cael teclyn ychwanegol i'r cartref i sicrhau bod eich ffon yn parhau i weithio.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi paratoi 4 Sioe Deithiol ar draws y sir am y system 'full fibre'.
- Mae Sandy wedi creu grwp sy'n cynnwys 8 o bobl ac maent yn dosbarhu taflenni o amgylch cartrefi. ( mae 695 wedi derbyn taflenni yn barod). Mae hefyd wedi bod mewn cysylltiad gyda Ben Lake. Cysylltodd hefyd gyda Clive Davies o Gyngor Sir Ceredigion ac mae gwybodaeth ar sawl grwp Facebook. Mae wedi llwyddo i ledaenu'r neges yn effeithio trwy nifer o ffynhonellau – cysylltu ag ysgolion, cylchlythyr, baneri ayyb. Bydd pawb yn elwa o gael y 'full fibre' i'r ardal hon.

**Datgan Diddordeb -** DIM

**3. Cofnodion**

**3.1 -** Derbyniodd bawb gopi o gofnodion mis Mai a chynigiodd y Cynghorydd Emyr Jones eu bod yn gywir ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ceri Jones.

.

**4.Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**4.1 -** Mandate Nat West – dim diweddariad.
**4.2 –** Angen dod a'r Tystysgrif a'r ffram i gyflwyno i Roger Davies yn ein cinio blynyddol nos wener..
**4.3** – Meinciau – mae un fainc gyda y Cyng Teifi Evans ond nid yw wedi cael ei gosod yn ei lle eto.
**4.4** – Y Cyng Sian Williams wedi cael y Jabra ar gyfer win cyfarfodydd Hybrid.
**4.5** - Y Cyng Sian Williams wedi bod mewn cysylltiad gyda Owenna Davies ac wedi cael rhai o luniau T Llew Jones. Mae hefyd wedi ceisio cysylltu gyda Sion llar i ofyn am yr hawlfraint i ail-greu y poster. Wedi gadael neges ond heb dderbyn ymateb eto.
**4.6 –** Hysbysfwrdd newydd Ffostrasol –Bydd y Cyng Ceri Jones yn galw i weld Gary Morgan yn ystod yr wythnosau nesaf.
**4.7** – Ar Fai 20fed cyfarfu rhai o'r Cynghorwyr oedd ar gael y noson honno i bori trwy'r Cyfrifon ers 2017 er mwyn cael trefn arnynt. Mae Gwyn Jones wedi edrych dros y cyfrifon ac wedi sicrhau fod Cashbook yn ymateb i'r cyfrifon yn flynyddol. Llwyddom i gael cyfarfod ar lein gyda Deryck o Audit Wales ac mae rhaid diolch i Gwyn am ei holl gymorth dros yr wythnosau diwethaf. ( Ymddiheurodd y Cyng Maldwyn Lewis am ei absenoldeb yn y cyfarfod gyda Deryck). Diolchwyd i bawb a fu ynghlwm yn t nsoon i gael trefn ar y cyfrifon.
**4.8** – Jill Lowry wedi cysylltu am ein bod am gadw'r arian £1,000 yn y gymuned rhaid rhoi syniad ymhle byddem yn dymuno iddynt wario yr arian. Cafwyd syniad au am Fronfach lan am Penlan / Blaenbachcrydd lawr am Ackerman gan fod llwybr Ceffylau yno eisioes / Hawen Hall lawr am Crimson moon. ( efallai byddai'n syniad holi grwpiau cerddwyr lleol am eu syniadau nhw ).

**5. Materion y Cynghorydd Sir.**

Nododd fod Etholiad ar y gorwel ar y 4ydd o Orffennaf.

**6.Gohebiaeth**
**6.1** – Gwahoddiad i ymuno mewn sesiwn 'Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion'.
**6.2** - Derbyniwyd rhestr o gyrsiau sydd ar gael dros fisoedd yr haf.
**6.3** –Mae Cynhadledd Diogelu Oedolion ar gael – Sioe Deithiol yn Aberhonddu ar y 4ydd a'r 5ed o Fehefin.
**6.4** – Elin Jones wedi ymateb i'r holiadur am newid 20mya yn ardal Cyngor Cymuned Troedyraur. Mae'n bwysig cadw 20mya yng Nghoedybryn a Rhydlewis gan nad oes palmentydd yno ac mae ambell fan o'r ffordd yn gul iawn.

**7.Cynllunio** - Dim

**8. Cyllid**

Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddwyd gan y Cynghorwyr Ceri Jones a Maldwyn Lewis.

Coed Nadolig - £360.00 **001762**
HMRC - £72.40 **001763**
Cyflog y Clerc - £289.36 **001764**
Yswiriant Blynyddol - £1119.33 **001761** ( wedi cael ei dalu ar ol cyfarfod Mai 20fed gan fod y dyddiad adnewyddu cyn diwedd y mis ).

**9. Materion Ardal**

**9.1** –Mae 2 arwydd Maesllyn oedd wedi mynd ar goll wedi ail-ymddangos ac angen mynd ati i drefnu eu ail-osod.
**9.2** – Mae'r lamp stryd oedd ddim yn gweithio ym Mhenrhiwpal bellach yn gweithio.
**9.3** - Daeth tua 12 o bentrefwyr Coedybryn at eu gilydd dros y penwythnos i dacluso'r sgwar. Gweithiodd pawb yn ddiwyd yn chwynnu a phlannu blodau. Mae un wedi cynnig ail beintio'r arwydd sydd yng nghanol y sgwar. Braf gweld pobl yn cymryd diddordeb yn eu ardal a pherchnogaeth o'u cymunedau.
**9.4** – Holwyd am gasgen arall yng Nghoedyryn ger Blaenbachcrydd. Y tristwch yw fod yr arwydd wedi diflannu a nodwyd y byddai casgen ar ochr y ffordd heb arwydd yn edrych braidd allan o le.
**9.5** – Mae potholes yn parhau yn Ffostrasol ger y gyffordd am Penrhiwpal.
**9.6** – Mae problemau gyda'r system ddraeniad yn Ffostrasol sy'n achosi problem llifogydd ar draws y sgwar yn gyffredinol.
**9.7** – Mae angen trefnu fod rhywun yn gofalu am ddyfrio'r potiau blodau yn y pentrefi yn rheolaidd dros fisoedd yr haf.
**9.8** –Rhydlewis – mae pentrefwyr wedi dod at eiu gilydd i gasglu sbwriel o amgylch y pentref a braf gweld pobl yn parchu eu cymunedau.
**9.10** – Mae'r potholes oedd yn broblem wedi cael eu llenwi yn Rhydlewis erbyn hyn.
**9.11** – Llongyfarchiadau gwersog i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Penparc ar ennill Rali Ceredigion. Y tro diwethaf iddynt ennill oedd deugain mlynedd yn ol yn union i'r dydd. Braf fydd croesawu'r Rali i waelod y Sir y flwyddyn nesaf.
**9.12** – Cynhaliwyd noson lwyddianus iawn yn yr Ymarfer De-fib yn Neuadd Ffostrasol.

**10. Cyfarfod Nesaf**

10.1 – Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol af yr 2il o Orffennaf am 7:30 o'r gloch.

Gan nad oedd dim ymhellach i drafod tynnwyd y cyfarfod i ben am 9:45yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

| Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) | Dyddiad |
| --- | --- |